## Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/*Clerk*: Fflur Lawlor
Cyfeiriad/*Address*: Ffynnon Garon,
Stryd y Capel,
Tregaron,
Ceredigion,
SY25 6HD

Ffôn/*Tel*: 01974 299280
E-bost/*E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/*Mobile*: 07891677597

**Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron / *Tregaron Town Council Meeting***
**Nos Lun / *Monday* 18.10.2021**

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / *Memorial Hall*

**COFNODION MIS HYDREF / *OCTOBER MEETING MINUTES***

| | Eitem / *Item* | Gweithred / *Action* |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO / WELCOME**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol y Cyngor.<br><br>*The Chairman welcomed all members present, to the monthly meeting.*<br><br>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Catherine Hughes (Cadeirydd/*Chair*), Cyng/Cllr Arwel Jones, Evan Jones, Rhian Jones, Ann Jones, Rhydian Wilson, Alun Owen, Gwilym Jenkins, Laura Sherman, Owain Pugh.<br><br>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor | |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**<br>Cyng/*Cllr* June Owens. | |
| 3. | **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**<br>Dim i'w gofnodi<br>*Nothing to report* | |
| 4. | **ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT**<br>Ni allai PC John Evans fynychu'r cyfarfod ond darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth. Adroddwyd am 1 cofnod o ddifrod troseddol, 3 cofnod o ymddygiad gwrthgymdeithasol a 1 cofnod trais / ymosodiad yn ystod y mis diwethaf.<br><br>*PC John Evans could not attend the meeting the Clerk read out an email sent with information. 1 record of criminal damage, 3 record of anti-social behaviour/harassment and 1 record of violence/assault had been reported in the last month.* | |
| 5. | **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**<br>Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb yn y pwnc Cynllunio a torri cae y parc.<br>*Cllr Catherine Hughes declaring an interest in the subject of Planning and the grass cutting of the park.*<br><br>Cyng Gwilym Jenkins yn datgan diddordeb yn y pwnc unrhyw fater arall, pwynt 19.4.<br>*Cllr Gwilym Jenkins declaring an interest in the subject of any other business, point 19.4.* | |
| 6. | **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 20.09.21**<br>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. | |

CADEIRYDD / CHAIRMAN

| | | |
|---|---|---|
| | *It was agreed that this was a true record of the minutes.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Owain Pugh<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/Cllr Alun Owen | |
| 7. | **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**<br>3 –<br>Arwyn Davies, CCC wedi cadarnhau bydd prydles y darn tir tu ôl Min-y-gors, Heol yr Orsaf yn barod i'w arwyddo mis nesaf – bydd hwn yn galluogi y Cyngor Tref i ddatblygu Gardd Cymunedol ar y cyd gyda'r gymuned. Angen trafod ymhellach cynlluniau ar gyfer y darn tir.<br><br>*Arwyn Davies, CCC has confirmed that the lease of the land at Min-y-gors, Station Road will be ready for signing next month - this will enable the Town Council to develop a Community Garden in conjunction with the community. Need to discuss further the plans for the piece of land.*<br><br>8 –<br>20.1 –<br>Cyng Catherine Hughes wedi trial cysylltu eto gyda'r cwmni, ond dal heb cael ymateb.<br><br>*Cllr Catherine Hughes has tried to contact the company again, but still has not received a response.*<br><br>19 –<br>19.5 –<br>'Ronald McDonald House Charities' – Clerc wedi cysylltu, aros am wybodaeth.<br><br>*Ronald McDonald House Charities - Clerk contacted, awaiting information.*<br><br>20 –<br>20.3 –<br>Clerc wedi cysylltu a'r Cyngor Sir, ond heb cael ymateb.<br><br>*Clerk has contacted the County Council, but has not received a response.* | |
| 8. | **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**<br><br>8.1 Cyflog y Gweithiwr Strydlun (Medi) £244.80<br>*Street Scene Worker Salary (September)*<br><br>8.2 Cyflog y Clerc (Medi) / *Clerk's Salary (September)* £216.00<br><br>8.3 HMRC NIC/TAX Mis Awst a Gorffennaf / *Month* of July & August £115.20<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Ann Jones<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/Cllr Gwilym Jenkins | Clerc / *Clerk* |
| 9. | **ADRODDIAD YR IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORT**<br><u>Is-bwyllgor Parc / Blodau</u><br>Diolch i aelodau'r is-bwyllgor am eu gwaith dros yr haf. Yr un yw'r diolch i bawb yn y gymuned am helpu.<br>Cafwyd trafodaeth ynghylch beth i'w wneud dros misoedd y gaeaf – hyn i'w drafod dros yr wythnosau nesaf.<br><br>Mae y clerc wedi edrych am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwaith yn y parc – dal i aros i rhai gwmniau i ddod nôl â phris. Unwaith mae'r Clerc wedi derbyn y dyfynbrisiau i gyd, eu danfon at y Cynghorwyr i drafod ymhellach. Roedd pob un yn cytuno i'r Clerc gysylltu â Deian Rees i gael dyfynbris am baentio'r offer yn y parc. | |

CADEIRYDD / CHAIRMAN

| | | |
|---|---|---|
| | Gwiriadau misol Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau dros y gaeaf - bydd y Cyng Laura Sherman yn cynnal y gwiriadau y mis hwn - Clerc i e-bostio pawb gyda'r ffurflen.<br><br>Diolchodd y Cyng Catherine Hughes i bawb a oedd wedi bod yn torri cae'r parc. Mae'r Cyng Catherine Hughes wedi cydnabod ac yn bersonol wedi anfon llythyr o ddiolch at Michael Owens, Lloyd Lewis a Gareth Jones ynghyd â thaleb am eu hamser.<br><br>Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb yn yr isod, y pwnc torri gwair y cae parc.<br>Cymerodd y Cyng Rhydian Wilson yr awenau fel Cadeirydd i drafod y canlynol - cynigiodd y Cyng Evan Jones y dylai'r Cyngor Tref dalu £200 i Michael Owens, Lloyd Lewis £100 a Gareth Jones £50. Cynhaliwyd trafodaeth ac roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno i dalu'r symiau uchod.<br><br>Cymerodd y Cyng Catherine Hughes yr awenau nol fel Cadeirydd. Penderfynwyd gofyn a allai Gofalwr Ysgol Henry Richard dorri cae'r parc cyn y gaeaf - y Cyng Catherine Hughes i gysylltu â'r Pennaeth, Mr Dorian Pugh.<br><br>*<u>Park / Flowers Sub-Committee</u>*<br>*Thank you to all the sub-committee members for their work over the summer. Thanks also to members of the community who helped. There was a discussion about what to do over the winter months – this to be discussed over the next few weeks.*<br>*The clerk has been looking for quotes for the work in the park - still waiting for some companies to come back and quote. Once the quotes have been received by the Clerk, they are to be sent to the Councillors for further discussion.*<br>*All were in agreement for the Clerk to contact Deian Rees for a quote for painting the equipment in the park.*<br><br>*Monthly Health & Safety checks of the Park to continue over the winter - Cllr Laura Sherman will carry out the checks this month – Clerk to email all with the form.*<br><br>*Cllr Catherine Hughes thanked everyone who was involved in cutting the grass of the park field. Cllr Catherine Hughes has acknowledged and personally sent a letter of thanks along with a gift voucher for their time.*<br><br>*Cllr Catherine Hughes declaring an interest in the subject of the grass cutting of the park field.*<br>*Cllr Rhydian Wilson took over as Chair to discuss the following – Cllr Evan Jones proposed that the Town Council pay Michael Owens £200, Lloyd Lewis £100 and Gareth Jones £50. A discussion was held and all Cllrs were in agreement to pay the above amounts.*<br><br>*Cllr Catherine Hughes took over as Chair. It was decided to ask if the Caretaker of Ysgol Henry Richard could cut the park field before the winter – Cllr Catherine Hughes to contact the Head, Mr Dorian Pugh*.<br><br><u>Is-bwyllgor Cynllun Lle</u><br>Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod â Beti Gordon, Cyngor Sir Ceredigion - ei rôl yw datblygu prosiectau yn nhrefi'r sir o dan y cynllun LEADER. Bydd hi'n cysylltu i drefnu cwrdd eto a gweld sut y gallwn symud ymlaen gyda'r gwahanol brosiectau.<br><br>Trafodwyd y Cynllun Lle drafft cyfredol ac roedd pawb yn cytuno i dderbyn y cynllun.<br><br>Cynnig: Cyng Alun Owen<br>Eilio: Cyng Ann Jones<br><br>*<u>Place Plan Sub-Committee</u>* | Clerc / Clerk |

CADEIRYDD / CHAIRMAN

| | | |
|---|---|---|
| | *The committee have met with Beti Gordon, Ceredigion County Council - her role is to develop projects in the county's towns under the LEADER scheme. She will get back to us to meet again and see how we can move forward with the different projects.*<br><br>*The current draft Place Plan was discussed and all were in agreement to accept the plan.*<br><br>*Proposed: Cllr Alun Owen*<br>*Seconder: Cllr Ann Jones* | |
| 10. | **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT**<br><br>Y Clerc wedi cwrdd â'r Gweithiwr Strydlyn i drafod y gwaith sydd angen ei wneud ar doiledau'r Mart – mae angen ychydig o waith ar yr adeilad - ail-blastro, paentio ac arwyddion newydd. Mae'r Clerc wedi siarad â'r Clerc blaenorol ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y toiledau - mae'n ymddangos bod y toiledau'n rhan o brydles DAG gyda Chyngor Sir Ceredigion. Angen cysylltu â DAG i drafod ymhellach.<br><br>Casglu sbwriel i'w drefnu ar gyfer dydd Sadwrn 30 Hydref 2021 - 10 am-12.30pm. Clerc i hysbysebu.<br><br>*The Clerk has met with the Street Scene Worker to discuss the work that needs to be done on the Mart toilets – the building needs a bit of work - re-plastering, painting and new signage. The Clerk has spoken to the previous Clerk with regards to who is responsible for the toilets - it seems that the toilets are part of DAG's lease with Ceredigion County Council. Need to contact DAG to discuss further.*<br><br>*Litter pick to be arranged for Saturday 30th October 2021 - 10am-12.30pm. Clerk to advertise.* | Clerc / Clerk |
| 11. | **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**<br>Dim i'w gofnodi<br>*Nothing to report* | |
| 12. | **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING PERSMISSION**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 13. | **CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL**<br>Ebyst canlynol wedi eu derbyn a wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod<br>*Emails below received and have been forwarded to Councillors prior to meeting –*<br><br>• Ebost – Dana Jones – Cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngorau Tref/Cymuned ar 22ain Tachwedd 2021 – angen 2 cynrychiolwr o'r Cyngor i fynychu – Clerc a Cyng Rhian Jones i fynychu ar ran y Cyngor Tref. Cyng Catherine Hughes yn mynychu fel yr aelod lleol. Y Cynghorwyr i anfon cwestiynau at y Clerc erbyn 5ed Tachwedd, er mwyn eu hanfon ymlaen at Dana Jones<br>• E-bost - David Owen, Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Tyfu Canolbarth Cymru - Wi-Fi Canol y Dref a dadansoddi nifer yr ymwelwyr (cafodd yr ebost i ddanfon at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod gan fod angen ateb erbyn 11 Hydref) - mae'r prosiect wedi'i symud ymlaen i bwynt lle mae cais wedi gwneud i'r Gronfa Trawsnewid Trefi ac yn cael ei gyflwyno i'r panel ganol mis Hydref a fydd yn ceisio gosod yr offer mewn 5 tref yng Ngheredigion nad oes ganddynt y cyfleusterau hyn ar hyn o bryd, sef Aberaeron, New Quay, Llandysul, Tregaron a Lampeter. Bydd y system yn ceisio ymdrin â phrif strydoedd, ardaloedd manwerthu a thwristiaeth y dref, a bydd yn cynnwys 'pecyn 5 mlynedd' a fydd yn cynnwys y canlynol -<br>- Offer / caledwedd<br>- Gosod | Clerc / *Clerk* |

| | | |
|---|---|---|
| | - trwydded 5 mlynedd i gael mynediad at ddata<br>- Diweddariadau cynnal a chadw / meddalwedd 5 mlynedd<br>- 5 mlynedd o 'dudalen fewngofnodi' i alluogi ymwelwyr i gael mynediad at y Wi-Fi cyhoeddus<br>Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud cais am arian a bydd hefyd yn cyfrannu cyllid cyfatebol gofynnol ar gyfer y prosiect. Er mwyn dangos ymrwymiad y Cynghorau Tref i'r prosiect hwn, mae'r Cyngor Sir yn gofyn i bob Cyngor tref wneud cyfraniad cyllid cyfatebol enwol o £ 500 i'r costau cyffredinol, a fyddai'n cael ei anfonebu i'r Cyngor Sir ar ôl cwblhau'r gosodiad (Mawrth 2022 fan bellaf).<br>Fel y soniwyd, dosbarthwyd yr e-bost at bob Cynghorydd cyn y cyfarfod - roedd pob un yn cytuno i gyfrannu £500 fel cyfatebiaeth i'r prosiect. Hysbysodd y Clerc David Owen o hyn.<br>• Ebost – Diogelwch Dŵr Ceredigion wrth Roger Smith, Rheolwr Achub Bywyd yr Ardal, RNLI<br>• Ebost – Cyngor Sir Ceredigion - diweddariad am sefyllfa y llygoed – mynd i gysylltu cyn hir gyda diweddariad ar ôl y swyddogion ymweld a'r lleoliadau eto.<br>• Ebost – Michael Smith – *Asesiad Ceredigion o les lleol*.<br>• Ebost – Adran Cyllid Cyngor Sir Ceredigion – Precept 2022/23<br><br>• *Email – Dana Jones - Meeting between Ceredigion County Council and Town / Community Councils on 22nd November 2021 - 2 Council representatives need to attend – Clerk and Cllr Rhian Jones to attend on behalf of the Town Council. Cllr Catherine Hughes attending as the local member. Cllrs to send in questions to the Clerk by 5th November, in order to send them on to Dana Jones*<br>• *Email – David Owen, Digital Programme Manager, Growing Mid Wales - Town Centre Wi-Fi and footfall analysis (it was circulated prior to the meeting as a reply was needed by 11th October) - the project has been progressed to a point where an application for funding to the Transforming Towns Fund will be presented to the panel in mid-October which will look to install the equipment in 5 Towns in Ceredigion that currently do not have these facilities, namely Aberaeron, New Quay, Llandysul, Tregaron and Lampeter. The system will look to cover the main streets, retail and tourism areas of the town, and will consist of a '5 year package' which will consist of the following –*<br>*- Equipment/ hardware*<br>*- Installation*<br>*- 5 years licence to access data*<br>*- 5 years maintenance/ software updates*<br>*- 5 years 'login page' to enable visitors to access the public Wi-Fi*<br>*Ceredigion County Council will be making an application for funding and will also be contributing required match funding for the project. In order to demonstrate the Town Councils commitment to this project, the County Council request that each town Council make a nominal match funding contribution of £500 to the overall costs, which would be invoiced to the County Council following completion of the installation (March 2022 at latest).*<br>*As mentioned the email was circulated to all Cllrs prior to the meeting – all were in agreement to contribute £500 as match for the project. The Clerk informed David Owen of this.*<br>• *Email – Roger Smith, Ceredigion Water Safety, Area Lifesaving Manager, RNLI*<br>• *Email - Ceredigion County Council - update on the position of rats in the town - going to contact soon with an update after officers have visited the locations again.*<br>• *Email - Michael Smith - Ceredigion Assessment of Local Well-being.*<br>• *Email – Ceredigion County Council Finance Department - Precept 2022/23* | Clerc / *Clerk* |
| 14. | **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**<br>Ebyst wrth Tracy Gimartin-Ward Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyng Catherine Hughes wedi mynychu Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion yn ddiweddar.<br><br>*Emails from Tracy Gimartin-Ward, One Voice Wales - forwarded to Councillors prior to meeting.*<br><br>*Cllr Catherine Hughes attended the Ceredigion Area Committee meeting recently.* | |
| 15. | **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**<br>Prosiect yn symud yn ei flaen.<br>*Project moving forward.* | |
| 16. | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU**<br>Dim i'w gofnodi.<br>*Nothing to report.* | |
| 17. | **PROSIECT BWRDD DIGIDOL / DIGITAL BOARD PROJECT**<br>Bellach mae angen gwneud gwaith ar gasglu gwybodaeth i arddangos ar y bwrdd. Cytunwyd bod yn rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir i'w harddangos ar y bwrdd fod yn ddwyieithog. Mae angen drafftio dogfennau fel prisiau hysbysebion busnes, telerau ac amodau ac ymwadiad - i'w trafod gan bwyllgor y bwrdd digidol.<br><br>Mae'r gwaith dylunio wedi cychwyn a'r gobaith yw y bydd yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn.<br><br>Cyngor Cymuned Talacharn a Cyngor Tref Llanymddyfri wedi cysylltu yn gofyn am sgwrs am ein profiad o gael bwrdd digidol yn y dref – pawb yn gytun i'r Clerk drafod gyda nhw.<br><br>*Work now needs to be done on collecting information to be displayed on the board. It was agreed that all information provided to be displayed on the board has to be bilingual. Documents such as business advert prices, terms and conditions and a disclaimer needs to be drafted - to be discussed by the digital board committee.*<br><br>*The design work has begun and the hope is that it will be operational by the end of the year.*<br><br>*Laugharne Community Council and Llandovery Town Council contacted for a chat about our experience of having a digital board in the town - everyone agrees to the Clerk.discussing with them.* | Clerc / *Clerk*<br><br>Cyng / *Cllr* Catherine Hughes Arwel Jones Rhydian Wilson |
| 18. | **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**<br>18.1 –<br>Llythyr diolch am dorri porfa cae y parc wrth William Roberts, Llanilar ar ran pawb yng nghartref Bryntirion.<br>Letter of thanks for cutting the park field grass from William Roberts, Llanilar on behalf of the residents of Bryntirion.<br><br>18.2 –<br>Llythyr diolch am gymorth ariannol wrth y canlynol<br>*Letter of thanks for grant given from the following –*<br>▪ Ambiwlans Awyr Cymru / *Wales Air Ambulance*<br><br>18.3 –<br>Ebost wrth Lowri Jones – Bro 360 – calendr cymunedol ar gwefan Caron 360<br>*Email from Lowri Jones - Bro 360 - community calendar on the Caron 360 website*<br><br>18.4 –<br>Preswylwyr yn cwyno am parcio ar y palmant ar Heol Dewi tuag at Capel Wesley - Clerk i ddanfon mewn i CLIC, Cyngor Sir Ceredigion. | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Residents complaining about parking on the pavement along Dewi Road towards Capel Wesley - Clerk to send into CLIC, Ceredigion County Council.* | Clerc / *Clerk* |
| 19. | **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**<br>19.1 –<br>Cyng/*Cllr* Catherine Hughes –<br>Hoffai Dana Jones, Adnoddau Naturiol Cymru ddod i siarad yn y cyfarfod misol nesaf am y gwaith yn Cors Caron – pawb yn gytun. Clerc i wahodd Dana.<br>*Dana Jones, Natural Resource Wales would like to come to speak at the next monthly meeting about the work at Cors Caron - all agree. Clerk to invite Dana.*<br><br>Mae preswylydd wedi cysylltu â'r Cynghorydd Catherine Hughes i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith WeFibre yn yr ardal - bydd yn cysylltu â nhw i ofyn am adroddiad o'u gwaith hyd yma a bwydo nol yn y cyfarfod nesaf.<br>*Cllr Catherine Hughes has been contact by a resident for an update on the work of WeFibre in the area - she will contact them to ask for a report of their work to date and will report back at the next meeting.*<br><br>Cyng/Cllr Ann Jones –<br>Mae ffordd ar gau yr ochr arall i Nantymaen, Tregaron – ac wedi bod ar gau ers y Pasg 2021. Nodwyd y byddai ar gau am 16 wythnos - nid yw'r gwaith wedi cychwyn ac mae'r ffordd dal ar gau - Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion.<br>*Road closure other side of Nantymaen, Tregaron - been closed since Easter 2021. It stated it would be closed for 16 weeks – no work has started and the road is still closed - Clerk to contact Ceredigion County Council.*<br><br>19.2 –<br>Sul y Cofio – dydd Sul, 14eg Tachwedd 2021. Digwyddiad tu allan y Neuadd Goffa am 10.45am. Trefn y gwasanaeth tebyg i'r llynedd. Y Cadeirydd, y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Rhydian Wilson i gysylltu i drefnu'r gwasanaeth ac i gysylltu â David John Edwards am y torchau. Yn y dyfodol, y Cadeirydd bydd yn gyfrifol am drefnu Sul y Cofio.<br>*Remembrance Sunday – Sunday, 14th November 2021. Outside event, Memorial Hall Tregaron at 10.45am. Proceedings of the service similar to last year. The Chair, Cllr Catherine Hughes and Cllr Rhydian Wilson to liaise to organise the service and to contact David John Edwards about the wreaths.* In future, the Chair is responsible for arranging Remembrance Sunday.<br><br>19.3 –<br>Trefniadau Nadolig –<br>▪ Ffair Nadolig a troi goleuadau'r dref ymlaen – 03/12/2021 –<br>    ▪ Amser i'w gadarnhau.<br>    ▪ Cau y sgwar, y Clerc i rhoi cais mewn i Cyngor Sir Ceredigion.<br>    ▪ Merched Soar a Ysgol Henry Richard i ganu canu carolau.<br>    ▪ Cyng Rhian Jones i ofyn i James Walton, Teifi Toasties os ydy gallu gwneud bwyd.<br>    ▪ Gwin cynness a mins peis.<br>    ▪ Clerc i wirio ynghylch yswiriant PL ar gyfer y digwyddiad.<br>    ▪ Cyng Rhydian Wilson i drafod gyda'r Rhwydwaith Busnes am y digwyddiad.<br>    ▪ Trafod ymhellach cyfarfod nesaf.<br>• Taith Santa – 19/12/2021 – 6pm – Clerc i hysbysebu<br>• Coed Nadolig – Cyng Evan Jones i gysylltu â Teifi Trees am coed Nadolig i'r dref.<br><br>*Christmas Arrangements –*<br>• *Christmas Fair and switch on town lights - 03/12/2021 –*<br>    ▪ *Close the square, Clerk to apply to Ceredigion County Council.* | Clerc / Clerk<br><br>Cyng / *Cllr* Catherine Hughes<br><br>Clerc / *Clerk*<br><br>Cyng / *Cllr* Catherine Hughes & Rhydian Wilson<br><br>Clerc / *Clerk*<br><br>Cyng / *Cllr* Rhian Jones & Evan Jones |

CADEIRYDD / CHAIRMAN

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ *Merched Soar and Henry Richard School to perform carol singing.*<br>▪ *Cllr Rhian Jones to ask James Walton, Teifi Toasties if he can make food.*<br>▪ *Mulled wine and mince pies.*<br>▪ *Clerk to check regarding PL insurance for the event.*<br>▪ *Cllr Rhydian Wilson to discuss the event with the Business Network.*<br>▪ *To discuss further next meeting.*<br>• *Santa Tour – 19/12/2021- 6pm – Clerk to advertise.*<br>• *Cllr Evan Jones to speak to Teifi Trees about Christmas trees for the town.*<br><br>19.4 –<br>Cyng Gwilym Jenkins yn datgan diddordeb yn y pwnc isod.<br>*Cllr Gwilym Jenkins declaring an interest in the below subject.*<br><br>Clerc wedi derbyn llythyr wrth perswylwr  trwy law y Cyng Evan Jones ynghlyn a ffens sydd wedi cael ei rhoi lan ar tir commin. Darllenodd y Cadeirydd y llythyr i bawb a oedd yn bresennol a phenderfynwyd mai mater i'r Cyngor Sir oedd hwn.. Y Clerc i ymateb i'r llythyr ac anfon ymlaen i'r Cyngor Sir.<br><br>*Clerk has received a letter from a resident by Cllr Evan Jones regarding a fence that has been erected on commons land. The Chair read the letter to all present and it was decided that this was a matter for the County Council. The Clerk to respond to the letter and forward to the County Council.* | *Clerc / Clerk* |
| 20. | Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 15fed Tachwedd 2021 am 7.00pm.<br><br>*The next monthly meeting will be held on Monday 15th November 2021 at 7.00pm.* | |
| | Terfynwyd y cyfarfod / *Meeting was closed* | |

CADEIRYDD / CHAIRMAN